

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Pontrhydfendigaid

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Pontrhydfendigaid yn ysgol hyfryd sydd ag ethos hapus, gofalgar a chroesawgar ble mae lles bob un disgybl yn flaenoriaeth glir. Mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at yr awyrgylch braf, weithgar sy'n nodweddiadol o'r ysgol ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch naturiol. Mae ethos diogelu cadarn yn yr ysgol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth eu gwaith a'u chwarae ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, mathemateg a digidol o'u mannau cychwyn. Er hyn, nid oes bob tro ddigon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n gynhyrchiol wrth ddarparu cwricwlwm sy'n cynnig ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous a diddorol ac sy'n adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol yn llawn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael eu hysbrydoli ac mae eu hagweddau tuag at eu dysgu yn gadarn dros ben. Mae gan yr athrawon berthynas weithio arbennig gyda'r disgyblion sydd yn llawn gofal a pharch. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn, maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau dysgu ac  yn darparu ardaloedd a phrofiadau dysgu sy'n ysgogol ac yn meithrin chwilfrydedd naturiol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw adborth gan staff bob tro'n adnabod y camau dysgu nesaf ar gyfer y disgyblion yn effeithiol. Mae'r cynorthwywyr yn hybu cynnydd y disgyblion yn fedrus drwy gynnig profiadau dysgu a rhaglenni cefnogi pwrpasol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau lles y disgyblion a darparu'r profiadau dysgu gorau posibl iddynt. Mae hi'n rhannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae arweinwyr eraill yn yr ysgol yn darparu cefnogaeth gadarn i'r pennaeth ac, ar y cyfan, mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr cadarn dros yr ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o weithgareddau'r ysgol. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn bwrpasol.

# Argymhellion

A1 Sicrhau bod adborth gan staff yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn llawn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pontrhydfendigaid |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 71 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 61 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 17.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 26.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2006 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 02/05/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.